# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Mehefin 2020

Amser: 12.55 - 16.17

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6351

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AS<br>Gareth Bennett AS<br>Vikki Howells AS<br>Delyth Jewell AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Duncan Hamer, Llywodraeth Cymru<br>Sioned Evans, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ymateb i Lywodraeth Cymru ynghylch addasiadau tai.

### 2a Gohebiaeth: Diwygio Etholiadol y Senedd - Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (15 Mai 2020)

### 2b Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (19 Mai 2020) (1 Mehefin 2020)

### 2c Addasiadau Tai: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (28 Mai 2020)

## 3 Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru;

3.1 Cafodd Andrew Slade, Sioned Evans, Duncan Hamer ac Emma Watkins eu holi gan yr Aelodau fel rhan o'u hymchwiliad i Gymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau a chanolbwyntiwyd yn benodol ar effaith economaidd Covid-19.

3.2 Cytunodd Andrew Slade i anfon gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor am nifer o bwyntiau gweithredu.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd wrth y tystion y byddai'n ysgrifennu atynt gan ofyn y cwestiynau na chafodd eu gofyn yn ystod y cyfarfod.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i roi barn y Pwyllgor.

## 6 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

6.1 Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 15 Mehefin 2020, bydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin yn trafod Trosolwg diweddar y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o ymateb Llywodraeth y DU i bandemig COVID-19. Gwahoddwyd y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau yn y cyswllt hwn.

6.1 Nododd yr Aelodau'r Adroddiad a'i drafod, a bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu i roi sylwadau erbyn i'r mater gael ei drafod yn eu cyfarfod.

## 7 Effeithlonrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Yn amodol ar un ychwanegiad bach, cytunwyd ar yr adroddiad a bydd trefniadau i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2020.